

Adroddiad **Amrywiaeth** a Chyfloedd Cyfartal yn y **Diwydiant Teledu**

Adroddiad Monitro ar y Diwydiant Darlledu
a leolir yn y DU



Dyddiad Cyhoeddi 18 Medi 2019

Rhagair gan y Prif Weithredwr

Mae teledu wedi bod yn sail i hunaniaeth a diwylliant y DU ers bron i 90 o flynyddoedd. Heddiw, mae technoleg yn ailddiffinio'r cyd-destun ar gyfer teledu, gan arwain at fwy o ddewisiadau i filiynau o bobl ledled ein cymunedau, ein gwledydd a'n rhanbarthau.



Mae gwylwyr yn dymuno eu gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin, a dylai'r rhai sy'n rhan o'r diwydiant teledu eu cynrychioli'n briodol. O ystyried pwysigrwydd teledu i'n bywydau diwylliannol, nid yn unig mae amrywiaeth yn bwysig i'r sector, mae'n bwysig i'r gymdeithas ehangach hefyd.

Roedd yn galonogol gweld darlledwyr yn canolbwyntio fwyfwy ar y mater hwn y llynedd. Ond mae'r adroddiad eleni yn dangos bod cynnydd o ran gwella cynrychiolaeth wedi arafu, er gwaethaf yr ymdrechion cadarnhaol hynny.

Er enghraifft, nid yw cyfran y menywod mewn rolau uwch yn y maes teledu wedi newid yn fawr; ac nid yw cynrychiolaeth anabled y darlledwyr wedi gwella.

Mae cyflogeion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn dal i gael eu tangynrychioli ar lefelau uwch.

Ac er bod darlledwyr yn gweithio'n galetach ar gasglu ffigurau ystyrlon am bobl yn y diwydiant, dim ond data cyfeiriadedd rhywiol sydd wedi cynyddu'n gadarn o'r chwe nodwedd rydyn ni'n eu monitro. Nid oes adroddiadau manwl ar gael ar sawl agwedd ar y diwydiant o hyd. Felly, rydyn ni'n croesawu trafodaethau cadarnhaol â'r Llywodraeth ynghylch pwerau newydd i ganiatáu i Ofcom gasglu gwybodaeth am ystod ehangach o nodweddion gan ddarlledwyr.

Mae hefyd yn galonogol gweld bod rhai darlledwyr yn casglu gwybodaeth am gefndir cymdeithasol ac economaidd eu cyflogeion. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn yr adroddiad eleni'n dangos bod llawer o waith i'w wneud o ran denu'r bobl fwyaf talentog o bob cwr o gymdeithas, gan gynnwys y rhai hynny sydd â llai o fanteision a chyffleoedd.

Hefyd, mae'r diwydiant yn gweithio ar wella cyffleoedd i bobl dalentog anabl ac o leiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch. Ond mae'n rhaid i ni ganolbwyntio mwy ar asesu gwir effaith mentrau a strategaethau amrywiaeth, er mwyn gweld a ydyn nhw'n gwneud gwahaniaeth amlwg.

Eleni, rydyn ni wedi sefydlu Panel Cyngori ar Amrywiaeth sy'n cynnwys aelodau profiadol iawn. Mae'r grŵp yma o chwech o arbenigwyr o'r diwydiant yn rhoi cipolwg a safbwyntiau newydd i ni ar y materion hyn, ac rwy'n ddiolchgar i'r aelodau am helpu i lunio'r adroddiad hwn.

Hefyd, mae gan Ofcom ragor o waith i'w wneud o ran ein dal ni'n hunain yn atebol. Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y DU gyfan, y gwledydd a'r rhanbarthau, felly rhaid i ni adlewyrchu'r gymdeithas rydyn ni'n ei gwasanaethu. Mae gennym ninnau hefyd ragor i'w wneud o ran cyflawni ein targedau mewnol, ehangu amrywiaeth ein byrddau a'n pwyllgorau cyngori a gwella ein casgliad o wybodaeth ein hunain.

Mae'r diwydiant teledu yn lle hynod gyffrous a diwylliannol gyfoethog i weithio ynddo. Ond mae'r dystiolaeth yn dangos bod gormod o bobl yn cael eu heithrio rhag y cyfle hwnnw o hyd. Nid yw pethau'n symud yn ddigon cyflym, ac ni allwn adael i gynnydd arafu.

Felly, rydyn ni am i'n darlledwyr ailddyblu eu hymdrechion i ddeall eu gweithluoedd, edrych ar yr hyn sy'n gweithio a cheisio denu'r bobl fwyaf talentog i'r byd teledu - beth bynnag fo'u nodweddion neu beth bynnag fo'u cefndiroedd.

Sharon White
Prif Weithredwr, Ofcom

Crynodeb

Cyflwyniad

Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, mae Ofcom eisiau i ddarledwyr teledu ddarparu rhaglenni o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu bywydau amrywiol pobl yn ein cymunedau, gwledydd a rhanbarthau.

I helpu i wneud hyn, rhaid i weithluoedd y darledwyr adlewyrchu'r newidiadau yn y gymdeithas yn y DU. Mae darledwyr wedi dweud wrthym¹ eu bod, drwy ddenu amrywiaeth o bobl dalentog i'r diwydiant a hyrwyddo diwylliant sy'n dathlu gwahaniaeth, yn gallu gweld manteision creadigol, diwylliannol a masnachol sylweddol. Gall amrywiaeth helpu i sicrhau bod darledwyr yn parhau'n berthnasol i wylwyr yn y DU, pryd nad yw'r gystadleuaeth am eu sylw erioed wedi bod yn ffyrnicach.

Mae cael mwy o amrywiaeth yn y byd darlledu teledu yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom, ac rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r diwydiant a'r llywodraeth i gynyddu cyfradd y cynnydd.

Eleni, rydyn ni wedi elwa ar fewnbwn ein **Panel Cyngori ar Amrywiaeth**. Mae'r grŵp newydd yma o chwech o arbenigwyr profiadol iawn o'r diwydiant yn rhoi cipolwg a safbwyntiau i ehangu ein dealltwriaeth o faterion amrywiaeth ledled diwydiant darlledu'r DU. Rydyn ni'n ddiolchgar am ddealltwriaeth a safbwyntiau aelodau'r panel, ac rydyn ni wedi ystyried y rheini wrth greu'r adroddiad hwn.

Y prif ganfyddiadau

Roedd yr adroddiad y llynedd yn dangos gwelliant cyffredinol amlwg yn y modd mae'r diwydiant teledu yn casglu data amrywiaeth, ond nid yw'r cynnydd yn y drydedd flwyddyn o'r gwaith monitro wedi bod mor galonogol. Er bod rhywfaint o

welliant wedi bod yn faint o ddata am amrywiaeth sy'n cael ei gasglu gan ddarledwyr, roedd hyn yn cael ei danseilio gan gynydd mewn data 'heb ei ddatgelu'.²

Mae darledwyr yn dechrau casglu gwybodaeth am amrywiaeth economaidd-gymdeithasol eu cyflogeion.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i ddarledwyr gael cais i ddarparu'r wybodaeth hon, ac fe wnaethom ni dderbyn data ar gyfer 30% o weithwyr cyflogedig yn y byd teledu. Roedd hyn yn cynnwys data o staff y BBC, Channel 4 a Viacom (Channel 5). Mae'r data rhannol hwn yn dangos bod gweithwyr teledu yn agos i ddwywaith yn fwy tebygol na'r gyfartaledd, o gartrefi lle'r oedd y prif enillwyr mewn swydd broffesiynol (60%, o gymharu gyda'r gyfartaledd cenedlaethol o 33%).

Mae pobl sy'n gweithio yn y diwydiant teledu yn ddwywaith yn fwy tebygol o wedi mynychu ysgolion preifat. Aeth 14% i ysgolion annibynnol neu ysgolion sy'n codi ffi, dwbl y cyfartaledd cenedlaethol o 7%, yn ôl Ymddiriedolaeth Sutton.³ Aeth 22% ychwanegol i ysgolion sy'n dewis plant ar sail academaidd, ffydd neu feini prawf eraill. Aeth tua hanner (52%) i ysgolion gwladol nad oeddent yn gosod meini prawf. Rydyn ni'n disgwyl casglu rhagor o wybodaeth yn y maes hwn er mwyn cael darlun mwy cyflawn o gyfansoddiad economaidd-gymdeithasol y diwydiant yn y dyfodol.

	<i>Poblogaeth gweithio'r DU</i>	<i>Y diwydiant teledu yn y DU</i>	<i>BBC</i>	<i>C4</i>	<i>Viacom</i>
Proffesiynau	33%	60%	61%	50%	61%
Canolradd	29%	13%	13%	22%	13%
Dosbarth gweithiol	38%	26%	26%	28%	26%

Mae mwy o wybodaeth wedi cael ei chasglu am oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred y cyflogeion.

Eleni, cafwyd cynnydd yn nifer y darlledwyr sy'n darparu gwybodaeth am nodweddion oedran,

cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred. Ond, nid oes gennym ffigurau ar y nodweddion hyn ar gyfer rhannau helaeth o'r diwydiant. Felly, rydyn ni wedi ysgrifennu at y Llywodraeth yn gofyn am bwerau newydd i gasglu gwybodaeth ar yr agweddau hyn.

Ffigur 1: Cyfran y darlledwyr sy'n darparu data am oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred o'i gymharu â'r llynedd⁴

<i>Nodwedd wirfoddol</i>	<i>Nifer y darlledwyr</i>	<i>Cyfran y darlledwyr</i>	<i>Newid ers 2017/18</i>
Oedran	41	69%	+19pc
Cyfeiriadedd rhywiol	30	51%	+14pc
Crefydd neu gred	28	47%	+14pc

Ond er bod bylchau data yn cau, mae'r data 'heb ei ddatgelu' yn cynyddu.

Mae darlledwyr hefyd wedi gostwng eu bylchau data ar draws yr holl nodweddion amrywiaeth eleni. Ond mae'r gostyngiadau hyn yn aml yn cael eu cyfateb gan gynydd tebyg yng nghyfran y cyflogeion sy'n dewis peidio â datgelu eu data, neu sy'n gwrthod rhoi caniatâd i'r data gael ei ddefnyddio ar gyfer ein hadroddiad ni. Er enghraifft, mae'r bwlch data am anabledd ar draws y diwydiant yn y DU wedi gostwng dau bwynt canran ers y llynedd i 29%, ond mae data 'heb ei ddatgelu' wedi codi dau bwynt canran. Felly mae'r data wedi'i ddatgelu am anabledd wedi aros yn 67%.

Mae pobl anabl yn dal yn cael eu tangynrychioli, heb unrhyw welliant ers y llynedd.

Mae cyfran y gweithwyr sy'n diffinio eu hunain fel pobl anabl yn dal i fod yr un fath â'r llynedd, sef 6% - sy'n dal yn isel iawn o'i gymharu â chyfartaledd y farchnad lafur yn y DU, sef 18%.

Bach yn unig yw'r cynnydd yng nghynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch.

Mae cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi aros yn 13% ar draws y diwydiant yn gyffredinol. Er bod hyn yn cymharu'n ffafriol â 12% o boblogaeth marchnad lafur y DU, mae'n bell o dan y ffigurau cyfatebol ar gyfer dinasoedd mawr y DU megis Llundain, lle mae'r rhan fwyaf o brif swyddfeydd y pum prif ddarlledwr.⁵

Mae canran y gweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd mewn swyddi uwch reolwyr wedi dangos cynnydd bach yn unig - o 7% i 8%. Os bydd pethau'n parhau i newid ar y gyfradd hon, rydyn ni'n amcangyfrif y bydd hi'n cymryd o leiaf dair blynedd arall i'r diwydiant ehangach gyrraedd ffigur marchnad lafur y DU, sef 12%. Erbyn hynny, mae'n bosibl y bydd y ffigur hwn wedi codi hefyd.

Mae cydbwysedd rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn her, ond cafwyd gwelliant bach mewn swyddi uwch.

Menywod yw 45% o gyflogeion teledu yn y DU, i lawr o 47% dair blynedd yn ôl a llai na'r 47% o fenywod sy'n cael eu cynrychioli ar draws y farchnad lafur genedlaethol. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd bach iawn ers y llynedd yng nghyfran y merched sydd â swyddi uwch reoli - o 41% i 42%.

Mae'r darlledwyr yn gwerthuso eu cynnydd.

Mae mentrau amrywiaeth yn cael eu monitro gan y prif ddarlledwyr, gyda lefelau amrywiol o drylwyredd a chysondeb. Mae rhai darlledwyr yn defnyddio dulliau effeithiol o olrhain newid, megis ymchwil ffurfiol gan ddefnyddio data, tra bo rhai eraill yn defnyddio dull mwy cyffredinol, ad-hoc wrth asesu pa mor effeithiol yw'r mentrau amrywiaeth.

Sut mae amrwiaeth teledu yn edrych yn 2018/19?

Ffigur 2: Tabl cryno ar gyfer y chwe nodwedd – diwydiant teledu yn y DU

	Marchnad Iafur y DU / poblogaeth*						Cyflogeion yn y DU				
		2018/19	2017/18	2016	Newid yn y Pwynt Canran o un flwyddyn i'r llall	2018/19	2018/19	2018/19	2018/19	2018/19	
		Diwydiant teledu yn y DU	Diwydiant teledu yn y DU	Diwydiant teledu yn y DU **		BBC	Channel 4	ITV	Sky	Viacom	
Anabledd											
Y rheini sydd ag anabledd	18%	6%	6%	3%	Dim newid	10%	11%	4%	3%	8%	
Dim anabledd	82%	61%	62%	66%	-1pc	82%	75%	81%	57%	15%	
Heb ei ddatgelu		4%	2%	1%	+2pc	4%	2%	1%	2%	0%	
Heb ei gasglu (bwllch data)		29%	31%	30%	-2pc	5%	12%	15%	38%	77%	
Grŵp hil											
Grwpiau Ethnig Lleiafrifol	12%	13%	13%	11%	Dim newid	13%	19%	10%	16%	20%	
Grwpiau Ethnig Gwyn	88%	70%	71%	70%	-1pc	83%	79%	72%	69%	73%	
Heb ei ddatgelu		5%	4%	2%	+1pc	3%	1%	2%	2%	1%	
Heb ei gasglu (bwllch data)		11%	12%	17%	-1pc	1%	2%	16%	14%	5%	
Rhyw											
Dynion	53%	54%	54%	52%	Dim newid	56%	43%	46%	61%	47%	
Menywod	47%	45%	46%	47%	-1pc	44%	57%	54%	39%	53%	
Heb ei gasglu (bwllch data)		0%	1%	1%	-1pc	0%	0%	0%	0%	0%	
Menywod yn uwch reolwyr		42%	41%	38%	+1pc	43%	44%	44%	39%	42%	
Crefydd neu gred											
Crefyddol	67%	22%	22%	19%	Dim newid	37%	48%	0%	26%	31%	
Ddim yn grefyddol	26%	28%	28%	18%	Dim newid	54%	38%	0%	26%	39%	
Heb ei ddatgelu	7%	8%	5%	4%	+3pc	8%	9%	0%	9%	0%	
Nid oes caniatâd (i'w ddarparu i Ofcom)		2%	1%	0%	+1pc	0%	0%	0%	0%	0%	
Heb ei gasglu/Dim data (bwllch data)		41%	44%	59%	-3pc	0%	5%	100%	39%	30%	
Cyfeiriadedd Rhywiol											
Lesbiaidd/Hoyw/Deurywiol	2%	4%	4%	3%	Dim newid	7%	8%	5%	2%	9%	
Heterorywiol	93%	52%	49%	41%	+3pc	72%	83%	69%	52%	72%	
Heb ei ddatgelu	4%	7%	5%	5%	+2pc	7%	4%	4%	7%	5%	
Nid oes caniatâd (i'w ddarparu i Ofcom)		1%	1%	0%	Dim newid	0%	0%	0%	0%	0%	
Heb ei gasglu/Dim data (bwllch data)		35%	41%	51%	-6pc	14%	5%	22%	39%	14%	
Oedran											
O dan 50 oed	69%	68%	69%	55%	-1pc	73%	87%	82%	85%	91%	
50+	31%	17%	16%	17%	+1pc	27%	13%	18%	15%	9%	
Heb ei ddatgelu		0%	0%	0%	+0pc	0%	0%	0%	0%	0%	
Nid oes caniatâd (i'w ddarparu i Ofcom)		3%	1%	0%	+2pc	0%	0%	0%	0%	0%	
Heb ei gasglu/Dim data (bwllch data)		12%	14%	29%	-2pc	0%	0%	0%	0%	0%	

* Y ffynonellau ar gyfer ffigurau poblogaeth y DU::

Anabledd = [Ystadegau Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A08](#): Statws pobl anabl yn y farchnad lafur (Cyfartaledd Ebrill-Mehefin 18, Gorffennaf-Medi 18, Hydref-Rhagfyr 18, Ionawr-Mawrth 19) Cyfran yr holl bobl 16-64 oed sy'n Anabl yn ôl diffiniad Safon wedi Chysoni
Grŵp Hil = [Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09](#): Statws yn y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig (Cyfartaledd Ebrill-Mehefin 18, Gorffennaf-Medi 18, Hydref-Rhagfyr 18, Ionawr-Mawrth 19). Pawb sy'n gyflogedig.
Rhywedd = [Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09](#): Statws yn y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig (Cyfartaledd Ebrill-Mehefin 18, Gorffennaf-Medi 18, Hydref-Rhagfyr 18, Ionawr-Mawrth 19). Yr holl ddynion a menywod sy'n cael eu cyflogi (gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig).

Crefydd = [Cyfrifiad 2011](#)

Cyfeiriadedd rhywiol = [Cyfeiriadedd rhywiol, Y DU: 2017](#) - Canran poblogaeth y DU sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol

Oedran = [A05 SA: Cyflogaeth, diweithdra anweithgarwch economaidd yn ôl grŵp oedran](#) (gan addasu ar gyfer y tymhorau). (Cyfartaledd Ebrill-Mehefin 18, Gorffennaf-Medi 18, Hydref-Rhagfyr 18, Ionawr-Mawrth 19). Pob person sy'n gyflogedig/menywod/dynion

** Nid oes modd cymharu data 2016 yn uniongyrchol. Y diffiniad o ddiwydiant teledu yn y DU yw pob cyflogai sydd gan ddarlledwyr sydd â 98%+ o'i gyflogeion yn y DU (45 o ddarlledwyr i gyd)

*** Ni ellir adrodd y ffigurau mewn blychau llwyd ar gyfer Channel 4 a Viacom oherwydd bod modd adnabod pobl yn y data

Casgliad

Er ein bod yn cydnabod bod cynnydd ystyrion yn cymryd amser ac ymrwymiad a dealltwriaeth ar bob lefel, rydyn ni hefyd yn gwybod bod y diwydiant teledu wedi bod yn ymwneud â'r agenda amrywiaeth a chynhwysiant ers sawl blwyddyn.

Rydyn ni wedi dweud yn aml ei bod yn hollbwysig, er mwyn cael newid ystyrion, i ddarllledwr adnabod ei weithlu yn gyntaf. Mae llinell sylfaen atebolrwydd a thryloywder yn hanfodol i'r gwaith sydd ei angen er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Tra bydd bylchau data yn bodoli, ni fydd gan ddarllledwyr ddim darlun cywir o gyfansoddiad eu gweithlu nac o unrhyw dangynrychiolaeth. Fel rheoleiddiwr y diwydiant, mae gan Ofcom ragor o waith i'w wneud yn y maes hwn hefyd.

Gall ein gwaith fel rheoleiddiwr safonau ar gyfer teledu'r DU ein helpu ni i ddeall pa feysydd y mae'r cyhoedd yn teimlo'n gryf amdanynt o ran amrywiaeth ym maes darlledu. Rydyn ni'n ymwybodol bod materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a nodweddion gwarchoddedig yn achosi pryder cynyddol i gynulleidfa oedd yn y DU.

Y llynedd, fe wnaethom ni ddweud bod mwy o waith i'w wneud eto yn y diwydiant. Nawr rydyn ni'n credu bod yr amser wedi dod i weddnewid sut y dylid gwneud hyn. Rydyn ni'n argymhell cael ffocws o'r newydd a chraffu ar y mesurau sy'n annigonol o ran cynyddu cynrychiolaeth yn unol â thargedau a chynrychiolaeth gweithlu'r DU.

Byddwn yn parhau i helpu'r diwydiant i gyflawni'r nodau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Byddwn ni hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso trafodaethau â darllledwyr a'r sector yn ehangach.

Y camau nesaf ar gyfer y diwydiant teledu ac Ofcom

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae Ofcom yn galw ar y diwydiant teledu i wneud y canlynol:

- lleihau'r bylchau o ran gwybodaeth am amrywiaeth, gan gynnwys o ran symudedd cymdeithasol;
- gwella cynrychiolaeth pobl anabl yn sylweddol drwy gynlluniau recriwtio wedi'u targedu a rhaglenni datblygu gyrfa;
- gweithio i sicrhau bod eu gweithlu'n adlewyrchu poblogaeth weithio'r ardal lle maen nhw wedi'u lleoli;
- mynd ati'n rheolaidd i werthuso a monitro pa mor effeithiol yw'r mentrau sydd ganddyn nhw ar waith, i safon gyson uchel, i asesu beth sy'n gweithio; a
- gweithio gydag Ofcom a darllledwyr eraill i drafod ffyrdd newydd a chreadigol o hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mesurau Ofcom

Mae Ofcom yn cymryd amryw o gamau yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- ceisio cael rhagor o bwerau i'n caniatáu i ni fynnu bod darllledwyr yn darparu data ar amrywiaeth ehangach o nodweddion amrywiaeth;
- gweithio gyda Phanel Cynghori ar Amrywiaeth Ofcom er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r agenda amrywiaeth;
- dadansoddi effaith gwasanaethau ffrydio teledu fel Netflix ac Amazon Prime Video ar gyfansoddiad y diwydiant;
- mynd ar drywydd rhaglen ymgysylltu uchelgeisiol â darllledwyr, gan gynnwys trefnu

Beth wnaethon ni ei argymell i ddarllledwyr y llynedd?	Beth fu eu hymateb eleni?
Monitro mwy manwl er mwyn deall proffiliau cyflogeion yn well.	Mae mwy o ddarllledwyr wedi darparu dadansoddiadau o grŵp hil, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred; mae mymryn llai wedi darparu data manwl am anabled.
Sicrhau bod anabled yn faes ffocws - roedd angen mentrau targedol a mesurau tymor hir ar gyfer recriwtio a chamu ymlaen er mwyn gwella cynrychiolaeth i bobl anabl.	Cyhoeddwyd mesurau a gwaith newydd, yn ogystal ag ymgyrchoedd i wella cyfraddau datgelu, ond nid yw'r cynlluniau wedi delio eto â recriwtio a chamu ymlaen.
Cynnwys cyflogeion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn cynlluniau gweithredu ynghylch camu ymlaen a chynhwysiant.	Mae ymgysylltu â chyflogeion o leiafrifoedd ethnig wedi digwydd mewn materion camu ymlaen a chynhwysiant mewn rhai, os nad ymhob un, o'r darllledwyr mwyaf; mae rhai ohonynt wedi sefydlu argymhellion a thargedau.
Gosod targedau amrywiaeth sy'n fesuradwy ac yn amser-benodol, yn enwedig ar gyfer cyflogwyr sydd heb unrhyw dargedau clir ar gyfer meysydd hollbwysig o dangynrychiolaeth, fel anabled. Gosod targedau penodol gyda dyddiadau cyflawni clir os nad yw gweithlu'r darllledwr yn gynrychioliadol ar lefel genedlaethol	Mae rhai darllledwyr wedi bod yn mesur eu cynnydd yn erbyn targedau presennol; mae rhai eraill wedi cymryd camau cadarnhaol drwy osod targedau newydd. Mae rhai o'r darllledwyr mwyaf yn dal heb dargedau ar gyfer gwella cynrychiolaeth o anabled a chasglu data.
Mabwysiadu cwestiwn monitro allweddol i asesu cefndir cymdeithasol ac economaidd / symudedd cymdeithasol cyflogeion. Cydweithio ar gamau i wella mynediad at y diwydiant.	Mae 14 o ddarllledwyr wedi casglu data am o leiaf un o'r pedwar cwestiwn a gyflwynwyd i fesur amrywiaeth y cyflogeion, yn gymdeithasol ac yn economaidd, ac arweiniodd hyn at ddata wedi'i ddatgelu ar alwedigaeth rhieni ac addysg y cyflogeion ar gyfer rhyw 30% o gyflogeion yn y diwydiant.



Ôl-nodiadau

- 1 Gweler y cyfweiliadau fideo yn yr adran [Hwb Amrywiaeth](#) ar ein gwefan.
- 2 Mae data 'heb ei ddatgelu' yn syrthio i'r ddau grŵp canlynol: 'Roedd yn well gan y cyflogai beidio â datgelu' neu 'Casglwyd data ond ni chydsyniwyd i'w rannu ag Ofcom'. Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r darlledwyr â rheolaeth lwyr dros gyfraddau datgelu data cyflogeion, gan fod hawl gan gyflogeion i beidio â datgelu eu data i gyflogwyr. Ond heb ddata wedi'i ddatgelu, mae'n amhosibl deall yn iawn beth yw'r lefelau amrywiaeth mewn sefydliad ac ar draws y diwydiant, a'u cymharu'n gywir â'r meincnodau.
- 3 Adroddiad Ymddiriedolaeth Sutton [Leading People 2016](#), a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2016.
- 4 Mae'r cyfrannau'n seiliedig ar ddarlledwyr sydd ag o leiaf un cyflogai yn y DU (59 o ddarlledwyr yn 2018/19 a 60 o ddarlledwyr yn 2017/18)
- 5 Yn Llundain, 36% yw ffigwr y farchnad lafur yn y DU. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Ebrill 2018-Mawrth 2019. Cedwir Hawlfraint y Goron Swyddfa Ystadegau Gwladol [gan Nomis ar 2 Awst 2019].